# SWYDDOGOL

| GWYBODAETH POLISI | |
|---|---|
| Teitl | Datblygu Polisi'r Llu |
| Fersiwn | V2.0 |

| PERCHNOGAETH POLISI | |
|---|---|
| Noddwr Polisi | Cyfarwyddwr Strategaeth a Newid |
| Perchennog Polisi | Rheolwr Cynllunio Strategaeth |
| Awdur Polisi | Dadansoddwr Polisi |

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau gan y cyhoedd a staff ynghylch cynnwys a gweithrediad y polisi hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r polisi hwn, ysgrifennwch at: **Uned Llywodraethu Gwybodaeth Heddlu Trafnidiaeth Prydain 2il Lawr, 3 Sgwâr Callaghan Caerdydd, CF10 5BT** neu e-bostiwch: FOI@btp.pnn.police.uk

## Pwrpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn nodi'r rheolaeth, y trefniant ac yn disgrifio fframwaith y llu ar gyfer datblygu polisïau a chanllawiau yn Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Nod y polisi yw sicrhau bod dull effeithlon a chyson yn cael ei fabwysiadu ar gyfer datblygu a chymeradwyo'r dogfennau hyn ar draws y Llu.

Dylai holl bolisïau'r Llu;

- Wedi'i alluogi'n ddigidol/rhyngweithiol
- Cydymffurfio â Rheoli Gwybodaeth;
- Grymuso Hunan Wasanaeth a bod yn;
- Hawdd eu Defnyddio.

## I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddatblygiad yr holl bolisïau BTP. Mae'r polisi'n berthnasol i bob Swyddog Heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Staff yr Heddlu a Chwnstabliaid Arbennig; a elwir gyda'i gilydd yn gyflogeion. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd ar gontractau rhan-amser, tymor penodol a pharhaol, yn ogystal â'r rhai ar secondiad. Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer swyddogion a staff sy'n ymwneud â chomisiynu, ysgrifennu, cymeradwyo, cyhoeddi, gweithredu, monitro neu adolygu polisïau BTP.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

## Egwyddorion

Ategir y polisi hwn gan ganllawiau sy'n disgrifio'r broses ar gyfer datblygu ac adolygu polisïau. Mae'r canllawiau'n:

- manylu ar gyfrifoldebau cyflogeion, gan gynnwys Perchnogion Polisi a'r Tîm Polisi
- esbonio'r gwahanol brosesau cymeradwyo y mae'n rhaid i bolisïau fynd drwyddynt
- esbonio'r hyn y mae angen i Berchnogion Polisi ei ystyried wrth ymchwilio a datblygu polisïau

- darparu gwybodaeth i Berchnogion Polisi am arddulliau a safonau ar gyfer ysgrifennu polisi
- amlinellu'r broses ymgynghori ar gyfer polisïau
- esbonio pryd a sut y mae'n rhaid adolygu polisi

Yn BTP mae angen datblygu pob polisi mewn modd strwythuredig. Mae'r Polisi hwn a'r canllawiau cysylltiedig yn disgrifio'r broses ar gyfer datblygu ac adolygu polisïau y mae'n rhaid i bob adran, aelod o staff a swyddog gadw atynt. Mae hyn er mwyn sicrhau bod holl bolisïau'r BTP:

- yn cael eu fformatio'n briodol ac yn diwallu'r arddull a'r safonau corfforaethol gofynnol
- yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol gyfredol, e.e. Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Diogelu Data 1988 a chanllawiau cenedlaethol megis yr Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) ac arferion gorau
- yn ddarostyngedig i'r prosesau ymchwil, datblygu, ymgynghori a chymeradwyo priodol cyn eu gweithredu
- yn cael eu hadolygu ar gyfnodau priodol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd, canllawiau cenedlaethol ac arferion gorau

## Monitro ac Adolygu

Mae'r Tîm Polisi yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r polisi hwn. Caiff ei adolygu unwaith bob tair blynedd (oni bai bod amgylchiadau'n mynnu y dylid ei adolygu'n amlach) i sicrhau bod y broses ddiweddaraf a mwyaf perthnasol ar gyfer rheoli polisi BTP ar waith.

## Polisïau/Dogfennau Cysylltiedig

Pecyn Cymorth Polisi'r Llu